BBC BITESIZE

# Pecyn cynradd
# Cwpan y Byd

# Cynnwys


**Grwpiau Cwpan y Byd** 5

**Gwledydd Cwpan y Byd** 6

**Gweithgareddau Arbennig** 14

- Celf cydweithredol Cwpan y Byd 15
  - Taflen templed ciwb 16
- Lliwio cit 17
  - Taflen lliwio cit 18
  - Taflen lliwio het bêl-droed Cymru 19
- C’mon Cymru! 20
- Rhifau yng Nghwpan y Byd 21
- Enillwyr Cwpan y Byd 22
  - Taflen enillwyr Cwpan y Byd 23
- Creu sŵn! 24

**Gweithgareddau Anhygoel** 25

- Celf cydweithredol Cwpan y Byd 26
- Rhifau yng Nghwpan y Byd 27-28
- Barddoniaeth acrostig 29
- Enillwyr Cwpan y Byd 30
  - Taflen enillwyr Cwpan y Byd 31
- Arbrawf amser adweithio 32
- Creu sŵn! 33-34
- Cardiau Cwpan y Byd 35-37

**Gweithgareddau Ardderchog** 38

- Cyflwyno gwybodaeth am wlad 39
- Arbrawf amser adweithio 40
- Ysgrifennu araith i dîm Cymru 41
  - Taflen ysgrifennu araith i dîm Cymru 42
- Cymru 1958 43
  - Taflen Cymru 1958 44




# Croeso i becyn addysg gynradd Cwpan y Byd BBC Bitesize.

Bydd disgyblion trwy Gymru wedi eu cyffroi o weld Cymru yng Nghwpan y Byd Qatar, 2022. Mae'r BBC wedi casglu syniadau gan athrawon am weithgareddau ar gyfer disgyblion ysgol gynradd fydd yn dathlu'r ffaith bod Cymru yng Nghwpan y Byd. Rydym wedi creu pecyn o weithgareddau hwyliog yn ymwneud â'r gystadleuaeth fydd yn annog y dysgu yn y dosbarth.

Mae'r gweithgareddau wedi cael eu grwpio yn fras i Flynyddoedd 1 a 2, Blynyddoedd 3 a 4 a Blynyddoedd 5 a 6. Mae hyblygrwydd o fewn yr adnoddau i'w haddasu ar gyfer pob disgybl ar eu llwybr dysgu.

Mae'r gweithgareddau wedi cael eu datblygu i fod yn gyson gyda'r Cwricwlwm i Gymru gan gynnig cyfleoedd i ddatblygu'r pedwar diben o ran y cynnwys a'r profiadau. Yn ogystal â bod yn weithgareddau cyflawn i'w cyflwyno i'r dosbarth maent yn gyfle hefyd i athrawon a disgyblion i ddatblygu syniadau pellach.

Rydym yn annog ysgolion i gyhoeddi eu gwaith ar eu cyfrifon cymdeithasol er mwyn i'r BBC a Chymdeithas Bêl-droed Cymru allu dangos yr holl gefnogaeth, y gwaith a'r cyffro mewn ysgolion ledled Cymru. Defnyddiwch #pecyncwpanybydcymru er mwyn rhoi'r cyfle gorau i'ch gwaith gael ei weld gan dîm Cymru.

Mae presenoldeb cyntaf Cymru yng Nghwpan y Byd ers 1958 yn ddigwyddiad hanesyddol a chyffrous i holl ddisgyblion Cymru a dyma gyfle i danio'u dychymyg a'u creadigrwydd. Bydd y gweithgareddau yma yn ychwanegu at gyffro Cymru yn cyrraedd Cwpan y Byd ac yn rhoi cyfle pellach i ddisgyblion i ymfalchïo yn eu gwlad.

Hyderwn bydd y pecyn yn parhau i fod yn berthnasol ac o ddefnydd i athrawon ymhell wedi'r chwiban olaf yn Qatar 2022.

**C'mon Cymru!**





“Gyda phawb yn edrych ’mlaen i gael dilyn holl lwyddiant Cymru yng Nghwpan y Byd, dyma becyn addysgiadol fydd yn dod a bwrlwm y gystadleuaeth i’r ’stafell ddosbarth! Mae’r pecyn yn llawn syniadau creadigol fydd yn cyfuno y cwricwlwm newydd a phêl-droed. Pa ffordd well i fod yn rhan o’r wal goch? Cyfuno y cefnogi a’r addysgu - Amdani!”

Catrin Heledd

“Dwi wastad wedi credu bod pêl droed yn berffaith ar gyfer thema addysgiadol o fewn y dosbarth. O ddaearyddiaeth y gwledydd - a’i hanes - i fathemateg wrth i ni gyfri’r goliau a’r pwyntiau bydd Cymru yn casglu yn Qatar. Y gobaith yw bydd hwn yn hwyl i’r disgyblion ac yn help mawr i’r athrawon. Ac hefyd yn annog pawb i gefnogi Cymru yng Nghwpan y Byd!”

Dylan Ebenezer

# Grwpiau Cwpan y Byd

**Rhestr o'r timau sydd ym mhob grŵp yng nghystadleuaeth Cwpan y Byd.**




| Grŵp A | Grŵp B | Grŵp C | Grŵp D |
|---|---|---|---|
| Qatar | Lloegr | Ariannin | Ffrainc |
| Ecuador | Gl Iran | Saudi Arabia | Awstralia |
| Sénégal | UDA | México | Denmarc |
| Yr Iseldiroedd | Cymru | Gwlad Pwyl | Tunisia |

| Grŵp E | Grŵp F | Grŵp G | Grŵp H |
|---|---|---|---|
| Sbaen | Gwlad Belg | Brasil | Portiwgal |
| Costa Rica | Canada | Serbia | Ghana |
| Yr Almaen | Moroco | Y Swistir | Uruguay |
| Japan | Croatia | Cameroon | Gweriniaeth Korea |

# Gwledydd Cwpan y Byd

## Grŵp A

### Qatar



**Asia**

### Ecuador



**De America**

### Sénégal



**Affrica**

### Yr Iseldiroedd



**Ewrop**

# Grŵp B

## Lloegr



**Ewrop**

## GI Iran



**Asia**

## UDA



**Gogledd America**

## Cymru



**Ewrop**


## Grŵp C

### Ariannin



**De America**

### Saudi Arabia




**Asia**

### México



**Gogledd America**


### Gwlad Pwyl



**Ewrop**


## Grŵp D

### Ffrainc




Ewrop

### Awstralia




Asia

### Denmarc



Ewrop

### Tunisia



Affrica

## Grŵp E

### Sbaen



**Ewrop**

### Costa Rica




**Gogledd America**

### Yr Almaen



**Ewrop**

### Japan



**Asia**

# Grŵp F

## Gwlad Belg



Ewrop

## Canada



Gogledd America

## Moroco



Affrica

## Croatia



Ewrop

## Grŵp G

### Brasil





De America

### Serbia



Ewrop

### Y Swistir




Ewrop

### Cameroon



Affrica

## Grŵp H

| Portiwgal | Ghana |
| --- | --- |
|  |  |
| Ewrop | Affrica |
| **Uruguay** | **Gweriniaeth Korea** |
|  |  |
| De America | Asia |

# Gweithgareddau Arbennig

Addas ar gyfer disgyblion Blwyddyn 1 a 2

# Celf cydweithredol Cwpan y Byd

**Nod addysgol:** Datblygu sgiliau echdynnol manwl ac ymarfer geiriau yn ymwneud â siâp

**Crynodeb:** Gwaith unigol a chydweithio i greu un cyfanwaith celf

**Meysydd Dysgu:** Y Celfyddydau Mynegiannol

**Trefniadaeth:** Gwaith unigol (fydd yn cael ei gyfuno i greu cyfanwaith)

**Offer:** Taflen 'Templed ciwb', offer creu llun ac offer lliwio

Esboniwch i'r disgyblion bod cydweithio yn hanfodol mewn tîm pêl-droed. Bydd angen iddyn nhw gydweithio yn y gweithgaredd hwn i greu un darn o gelf sy'n cynnwys gwaith pob unigolyn.

Esboniwch i'r disgyblion beth yw brithwaith a dangoswch y fideo hwn iddyn nhw: www.bbc.co.uk/bitesize/topics/zbcf47h/articles/zd2ncqt

Dangoswch enghreifftiau o frithweithio megis pêl-droed lledr neu waith cwiltio.

Gofynnwch iddyn nhw ymchwilio pa siapiau fyddai'n gallu cael eu brithweithio i greu cyfanwaith celf. Dangoswch y templed ciwb iddyn nhw a holwch pa siapiau maen nhw'n gallu eu gweld.

Penodwch wlad sydd yng Nghwpan y Byd i bob disgybl. Rhowch y templed ciwb i'r disgyblion a gofynnwch iddyn nhw liwio'r wyneb uchaf mewn un lliw - gan gytuno fel dosbarth pa liw i'w ddefnyddio. Yna, gofynnwch i'r disgyblion i roi enw ei gwlad ar un wyneb ac yna creu patrwm eu hunain ar yr wyneb arall yn defnyddio'r lliwiau sydd yn y faner. Gallwch roi baneri'r gwledydd ar fwrdd gwyn rhyngweithiol neu argraffu'r taflenni baneri sydd yn y pecyn yma.

Esboniwch fod ciwbiau pawb yn mynd i gael eu rhoi at ei gilydd i greu un cyfanwaith celf Cwpan y Byd.


Ar ôl i'r disgyblion gwblhau eu ciwbiau rhowch nhw ar wal i'w harddangos.



**Syniadau am weithgareddau pellach**

- Gofynnwch i'r disgyblion feddwl am enwau siapiau 2D a'r geiriau sy'n cael eu defnyddio i ddisgrifio eu nodweddion, ee ochr, cornel.
- Trafodwch y gwahaniaethau rhwng siapiau 2D a 3D a'r eirfa a ddefnyddir i ddisgrifio siapiau 3D, ee cornel, ymyl a fertig.

# Taflen templed ciwb



# Lliwio cit

**Nod addysgol:** Datblygu sgiliau echdynnol manwl

**Crynodeb:** Creu crys pêl-droed i bob disgybl er mwyn creu *mobiles* dosbarth

**Meysydd Dysgu:** Y Celfyddydau Mynegiannol

**Trefniadaeth:** Gwaith unigol

**Offer:** Taflen 'Lliwio cit' ac offer lliwio



Argraffwch daflen 'Lliwio cit' i bob disgybl. Torrwch o amgylch yr amlinelliad a rhowch un cerdyn i bob disgybl.

Dangoswch luniau citiau'r timau sy'n cystadlu yng Nghwpan y Byd i'r disgyblion. Pa rai maen nhw'n eu hoffi a pham? Beth yw eu hoff liwiau? Beth yw lliw cit Cymru?


Gofynnwch i'r disgyblion i liwio'r cit a rhoi eu henwau ar gefn y crys.

Ar ôl iddyn nhw orffen, rhowch y crysau lliwgar ar lein ddillad i greu arddangosfa yn y dosbarth. Tynnwch luniau o'r arddangosfa a'u llwytho i gyfrifon cymdeithasol yr ysgol. Cofiwch yr hashnod #pecyncwpanybydcymru


**Syniadau am weithgareddau pellach**

- Asesu cyfoedion gan werthuso cit ei gilydd drwy nodi dau beth maen nhw'n ei hoffi am y cit ac un peth y bydden nhw'n ei newid.
- Darganfod ffyrdd o grwpio'r citiau, ee grwpio o ran lliw crys, lliw siorts, y nifer o lythrennau ayyb.
- Dylunio het bêl-droed

## Taflen lliwio cit



# Taflen lliwio het bêl-droed Cymru



# C'mon Cymru!

**Nod addysgol:** Datblgu sgiliau ysgrifennu a pherfformio

**Crynodeb:** Perfformio cân ysgafn ar gyfer Cwpan y Byd a chyfansoddi penillion newydd

**Meysydd Dysgu:** Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Y Celfyddydau Mynegiannol

**Trefniadaeth:** Grwpiau o 4/5 disgybl

**Offer:** Papur a phensil i gofnodi geiriau'r gân

Esboniwch eich bod chi am greu cân ar gyfer Cwpan y Byd 2022 a chyfansoddi penillion newydd i dôn 'Bing Bong Be'.

I gychwyn, ymarferwch y gân 'Bing Bong Be' drwy ganu 'Dau gi bach'.

Dau gi bach yn mynd i'r coed,
Esgid newydd am bob troed,
Dau gi bach yn dwad adre'
Wedi colli un o'u sgidie.

Yna, defnyddiwch y penillion canlynol fel ysbrydoliaeth a chyfle i ymarfer y dôn 'Bing Bong Be'.

Cymru sydd yng Nghwpan y Byd
I Qatar fe awn i gyd,
Tri deg dau dîm yn chwarae pêl-droed
Dyma'r twrnamaint gorau erioed!

Bing Bong gwylia'r bêl,
Bing Bong tafla'r bêl,
Bing Bong pasia'r bêl,
Bing Bong cicia'r bêl!

Y Wal Goch sy'n wych, hwre!
Criw y gogledd, criw y de,
Bydd y ffans yng Nghwpan y Byd
Oll yn canu "Yma o hyd!"

Ewch ati fel dosbarth i greu penillion eich hunain. Beth am gynnwys y gwledydd sy'n cystadlu yn y gystadleuaeth yn eich penillion? Gwnewch ffilm o'r disgyblion yn canu'r caneuon a llwythwch i gyfrifon cymdeithasol yr ysgol. Cofiwch yr hashnod #pecyncwpanybydcymru

**Syniadau am weithgareddau pellach**

- Perfformio'r gân gan feimio'r ystumiau wrth ganu'r gytgan.
- Ewch i wefan Jambori yr Urdd - jambori.urdd.cymru/cy/ - i ganu caneuon Jambori Cwpan y Byd.

# Rhifau yng Nghwpan y Byd

**Nod addysgol:** Datblygu sgiliau rhifedd sylfaenol

**Crynodeb:** Ennyn chwilfrydedd yn y disgyblion am rifau a gweld pwysigrwydd rhifau yng nghyd-destun Cwpan y Byd.

**Meysydd Dysgu:** Mathemateg a Rhifedd

**Trefniadaeth:** Gwaith pâr neu grwpiau o 3/4 disgybl

**Offer:** Offer ysgrifennu a phapur i gofnodi ac i wneud ymchwil

Esboniwch i'r disgyblion fod y gweithgaredd canlynol yn ymwneud â rhifau a'u bod nhw'n mynd i weithio mewn grwpiau neu fel parau.

Esboniwch eich bod chi am ddangos ffilm o bêl-droed i'r disgyblion a byddwch yn holi cwestiynau am rifau ar y diwedd. Yna, dangoswch **ddwy funud gyntaf y clip** hwn i'r disgyblion: https://www.bbc.co.uk/bitesize/articles/zkkd7v4

Ar ôl gwylio'r clip, gofynnwch i'r disgyblion:

1. Ble weloch chi rifau yn y clip yna?
   - *Atebion posib: ar y crysau, ar y siorts, ar y peli loto ar y bwrdd hysbysebu ayyb*
2. Pa rif sydd ar gefn y gôl-geidwad?
   - *Ateb: 12*
3. Beth oedd sgôr y gêm gyntaf sef Gwlad Belg yn erbyn Cymru?
   - *Ateb: Gwlad Belg 3 - Cymru 1*
4. Beth oedd sgôr yr ail gêm sef Gweriniaeth Tsiec yn erbyn Cymru?
   - *Ateb: Cymru 1 - Gweriniaeth Tsiec 0*
5. Beth yw cyfanswm goliau'r ddwy gêm?
   - *Ateb: 5*
6. Yn yr ail gêm, pa rif oedd ar gefn Daniel James pan sgoriodd i Gymru?
   - *Ateb: 20*
7. Yn yr ail gêm, pa rifau weloch chi ar y chwaraewyr oedd yn canu'r anthem?
   - *Ateb: 3, 16, 15, 6, 14, 20, 22*

Holwch y disgyblion a oes rhifau i'w gweld yn rhywle arall mewn gêm bêl-droed?

- *Atebion posib: ar y cloc, rhifau ar fwrdd wrth eilyddio chwaraewr, rhifau ar y seddi, pwyntiau yn nhablau y gemau grŵp, maint esgidiau ... a llawer mwy!*

Gofynnwch i'r disgyblion fynd ar helfa rifau o amgylch y dosbarth. Rhowch amser iddyn nhw i chwilio am gymaint o rifau ag sy'n bosib.

**Syniad am weithgaredd pellach**

- Defnyddiwch dabled neu ffôn i dynnu lluniau'r rhifau maen nhw'n eu gweld cyn creu llun neu collage gan ddefnyddio meddalwedd pwrpasol.

# Enillwyr Cwpan y Byd

**Nod addysgol:** Datblygu dealltwriaeth o bictogramau

**Crynodeb:** Dehongli a deall pictogramau drwy edrych ar enillwyr Cwpan y Byd

**Meysydd Dysgu:** Rhifedd a Mathemateg

**Trefniadaeth:** Gwaith pâr neu waith unigol

**Offer:** Offer ysgrifennu, taflen waith 'Enillwyr Cwpan y Byd'

Esboniwch bod pictogram yn ddull o ddangos data mewn lluniau er mwyn gwneud y data yn haws i'w ddeall.

Edrychwch ar bictogramau gan ddefnyddio'r dudalen Bitesize hon: www.bbc.co.uk/bitesize/articles/z7s3sk7

Rhowch y daflen waith i'r disgyblion. Tynnwch eu sylw at y ffaith fod un bêl yn cynrychioli ennill Cwpan y Byd ddwywaith. Gall y disgyblion ateb y cwestiynau mewn parau neu'n unigol.

**Syniadau am weithgareddau pellach**

- Gofynnwch i'r disgyblion greu pictogram yn dangos enillwyr Cwpan y Byd Merched.

**Enillwyr Cwpan y Byd Merched**

| | |
|---|---|
| 1991 | UDA |
| 1995 | Norwy |
| 1999 | UDA |
| 2003 | Yr Almaen |
| 2007 | Yr Almaen |
| 2011 | Siapan |
| 2015 | UDA |
| 2019 | UDA |







Trafodwch beth sy'n debyg neu'n wahanol rhwng y phictogram enillwyr Cwpan y Byd Merched a pictogram enillwyr Cwpan y Byd Dynion.


- Gofynnwch i'r disgyblion pa dîm maen nhw'n credu fydd yn ennill Cwpan y Byd Dynion 2022 a gofynnwch iddyn nhw ddylunio pictogram o'r canlyniadau.

# Taflen enillwyr Cwpan y Byd

**Dyma bictogram yn dangos enillwyr Cwpan y Byd Dynion.**

**Enillwyr Cwpan y Byd Dynion**

| Gwlad | Nifer o weithiau maen nhw wedi ennill Cwpan y Byd | Nifer o weithiau maen nhw wedi ennill Cwpan y Byd |
|---|---|---|
| Uruguay |  | 2 |
| Yr Eidal |  | |
| Yr Almaen |  | |
| Brasil |  | |
| Lloegr |  | |
| Ariannin |  | |
| Ffrainc |  | |
| Sbaen |  | |

 = Ennill Cwpan y Byd 2 waith

1. Llenwa'r golofn olaf gyda rhifau. Mae'r cyntaf, Uruguay, wedi ei wneud i ti.
2. Pa wledydd sydd wedi ennill Cwpan y Byd unwaith yn unig?
3. Pa wlad sydd wedi ennill Cwpan y Byd y nifer fwyaf o weithiau?
4. Ymchwilia beth yw poblogaeth Ariannin a phoblogaeth Sbaen. Pa wlad sydd â'r boblogaeth fwyaf? Beth yw'r gwahaniaeth yn y boblogaeth rhwng y ddwy wlad?

**Gwaith ymestynnol**

5. Hola bawb yn y dosbarth pa dîm maen nhw'n gredu fydd yn ennill Cwpan y Byd 2022. Cofnoda dy atebion mewn tabl. Yna, dylunia bictogram o dy ganlyniadau.

# Creu sŵn!

**Nod addysgol:** Datblygu sgiliau datrys problemau a chreadigrwydd

**Crynodeb:** Creu offeryn gan ddefnyddio eitemau cyffredin i greu sŵn a chynnwrf yn ystod gemau Cymru

**Meysydd Dysgu:** Gwyddoniaeth a Thechnoleg

**Trefniadaeth:** Gwaith pâr

**Offer:** Amrywiaeth eang o eitemau cyffredin, ee balwnau, reis, ffa wedi sychu, bandiau elastig, riliau cotwm, llinynnau amrywiol, tâp selo, cwpanau plastig, hen duniau bwyd, caeadau metel poteli, sisyrnau, glud ac ati

Holwch y disgyblion pa synhwyrau maen nhw'n eu defnyddio wrth ddilyn gêm bêl-droed.

- Beth maen nhw'n ei glywed/ ei weld/ei arogli?
- Sut mae hyn yn effeithio ar yr awyrgylch?
- Cymharwch yr awyrgylch yma gyda'r awyrgylch mewn gemau pêl-droed yn ystod y cyfnod clo heb y dorf yn y stadiwm. Beth fydden nhw wedi ei glywed/ei weld/ ei arogli mewn gêm yn ystod y cyfnod clo?

Esboniwch i'r disgyblion bod y dosbarth yn mynd i greu offerynnau i greu sŵn i gefnogi Cymru. Holwch y disgyblion am y dulliau gwahanol o greu sain, ee chwythu, taro a thynnu.

Esboniwch eich bod chi am iddyn nhw greu offerynnau taro fydd yn:

- gwneud sŵn
- gallu cael ei gario i mewn i gêm bêl-droed

Gadewch i'r disgyblion arbrofi gyda'r eitemau cyffredin i greu offeryn gyda phartner.

Dyma rai syniadau ar gyfer offerynnau:

- Gwneud maracas drwy roi ffa sych neu reis mewn potel blastig
- Llenwi bocs gwag gyda blociau adeiladu a'i ysgwyd i wneud sŵn
- Defnyddio dau bren mesur i greu craciwr chwip (*whip cracker*)
- Gwyliwch y fideo hwn sy'n dangos sut i greu offeryn 'Bangio Twangio' www.bbc.co.uk/programmes/p09c802b
- Gwyliwch y fideo hwn sy'n dangos sut i greu offeryn 'Banjo Bendigedig' www.bbc.co.uk/programmes/p09cj5g6

Dylai'r disgyblion arddangos eu hofferynnau i weddill y dosbarth. Beth am ddefnyddio'r offerynnau yma fel rhan o'r weithgaredd canu cân 'C'mon Cymru!'?

**Syniadau am weithgareddau pellach**

- Gofynnwch i'r disgyblion i asesu offerynnau eu cyfoedion ar lafar drwy nodi dau beth maen nhw'n eu hoffi ac un peth bydden nhw'n ei newid.
- Gofynnwch i'r disgyblion feddwl am ddulliau o wneud sŵn gyda gwahanol rannau o'r corff, ee clicio bysedd, stampio, clapio.
- Llwythwch eich gwaith i gyfrifon cymdeithasol yr ysgol. Cofiwch yr hashnod #pecyncwpanybydcymru

# Gweithgareddau Anhygoel

Addas ar gyfer disgyblion Blwyddyn 3 a 4

# Celf cydweithredol Cwpan y Byd

**Nod Addysgol:** Datblygu sgiliau creadigol; geirfa fathemategol; gwybodaeth am wledydd ar draws y byd

**Crynodeb:** Gwaith unigol a chydweithio i greu un cyfanwaith celf

**Meysydd Dysgu:** Y Celfyddydau Mynegiannol

**Trefniadaeth:** Gwaith unigol (fydd yn cael ei gyfuno i wneud cyfanwaith)

**Offer:** Taflen ‘Templed ciwb’, offer creu llun, offer lliwio a mynediad at y we er mwyn ymchwilio

Esboniwch i’r disgyblion bod cydweithio yn hanfodol mewn tîm pêl-droed. Bydd angen iddyn nhw gydweithio wrth wneud y gweithgaredd hwn er mwyn creu darn o gelf sy’n cynnwys gwaith pob unigolyn.

Penodwch wlad sydd yng Nghwpan y Byd i bob disgybl. Gofynnwch iddyn nhw ymchwilio pa ddelweddau sy’n cynrychioli’r wlad honno (ee draig, cenhinen a chennin pedr yn cael eu cysylltu â Chymru). Gofynnwch iddyn nhw drafod eu delweddau gyda phartner ac yna i ddewis dwy ddelwedd i’w defnyddio ar gyfer y dasg hon.

Holwch y disgyblion i weld a ydyn nhw yn gwybod beth yw brithwaith? Mae’r animeiddiad yma yn esbonio beth yw brithwaith: www.bbc.co.uk/bitesize/topics/zbcf47h/articles/zd2ncqt

Pa siapiau sy’n gallu cael eu brithweithio i greu cyfanwaith celf?

Trafodwch siapiau 2D a siapiau 3D.

Mae’r animeiddiad yma yn esbonio’r gwahaniaeth rhwng siapiau 2D a siapiau 3D: www.bbc.co.uk/bitesize/topics/zbcf47h/articles/z4dxvk7

Rhowch bapur a phensil i’r disgyblion. Gofynnwch iddyn nhw dynnu llun 2D o sgwâr, ac yna droi y llun 2D yn lun sy’n cyfleu ciwb 3D. Oes mwy nag un ffordd o wneud hyn?

Rhowch y templed ciwb i’r disgyblion a gofynnwch iddyn nhw liwio’r wyneb uchaf mewn un lliw - gan gytuno fel dosbarth pa liw i’w ddefnyddio. Yna, gofynnwch i’r disgyblion dynnu lluniau’r delweddau sy’n cynrychioli’r wlad/gwledydd ar y ciwb – un ar bob ochr sy’n weddill.

Esboniwch fod ciwbiau pawb yn mynd i gael eu brithweithio i greu un cyfanwaith celf Cwpan y Byd. Ar ôl i’r disgyblion gwblhau eu ciwbiau rhowch nhw ar wal i’w harddangos. Tynnwch luniau o’r arddangosfa a’u llwytho i gyfrifon cymdeithasol yr ysgol. Cofiwch yr hashnod #pecyncwpanybydcymru

**Syniadau am weithgareddau pellach**

- Gofynnwch i’r disgyblion wneud rhagor o waith ymchwil i frithweithio mewn celf. Tynnu eu sylw nhw at waith cwiltio ac at waith artistiaid megis M C Escher a’r pensaer Antoni Gaudí.
- Holwch y disgyblion pam fod rhai siapiau yn brithweithio’n well na’i gilydd. Gofyn iddyn nhw fesur yr onglau sy’n cyfuno i greu’r ffit berffaith.
- Defnyddiwch bapur isometrig i wneud rhagor o batrymau 2D ac i gyfleu siapiau 3D wedi eu gwneud o giwbiau.

# Rhifau yng Nghwpan y Byd

**Nod addysgol:** Datblygu sgiliau rhifedd, datrys problemau a dysgu gweithio'n systematig

**Crynodeb:** Ennyn chwilfrydedd yn y disgyblion am rifau a'u pwysigrwydd yng Nghwpan y Byd

**Meysydd Dysgu:** Mathemateg a Rhifedd

**Trefniadaeth:** Gwaith pâr neu grwpiau bach

**Offer:** Llyfr/darn o bapur i bob grŵp

Esboniwch eich bod chi am ddangos ffilm o bêl-droed i'r disgyblion a byddwch yn holi cwestiynau am rifau ar y diwedd. Yna, dangoswch ddwy funud gyntaf y clip hwn i'r disgyblion: https://bbc.in/3fGmCq2

Ar ôl gwylio'r clip, gofynnwch i'r disgyblion:

1. Ble weloch chi rifau yn y clip yna?
   - *Atebion posib: ar y crysau, ar y siorts, ar y peli loto ar y bwrdd hysbysebu*
2. Pa rif sydd ar gefn y gôl-geidwad?
   - *Ateb: 12*
3. Beth oedd sgôr y gêm gyntaf sef Gwlad Belg yn erbyn Cymru?
   - *Ateb: Gwlad Belg 3 - Cymru 1*
4. Beth oedd sgôr yr ail gêm sef Gweriniaeth Tsiec yn erbyn Cymru?
   - *Ateb: Cymru 1 - Gweriniaeth Tsiec 0*
5. Beth yw cyfanswm goliau'r ddwy gêm?
   - *Ateb: 5*
6. Yn yr ail gêm, pa rif oedd ar gefn Daniel James pan sgoriodd i Gymru?
   - *Ateb: 20*
7. Yn yr ail gêm, pa rifau weloch chi ar y chwaraewyr oedd yn canu'r anthem?
   - *Ateb: 3, 16, 15, 6, 14, 20, 22*

Rhowch y fideo ar saib ar 23 eiliad pan mae'r chwaraewyr yn canu'r anthem.

Holwch y disgyblion:

- Beth yw cyfanswm y rhifau ar grysau'r chwaraewyr?
  - *Ateb: 76*
- Beth yw cyfanswm yr eilrifau?
  - *Ateb: 66*
- Lluoswch yr odrifau gyda'i gilydd. Beth yw'r ateb?
  - *Ateb: 21*

# Rhifau yng Nghwpan y Byd

**Syniadau am weithgareddau pellach**

- Ymchwiliad mathemategol.
  Holwch y disgyblion:
  Beth oedd y sgoriau posib ar hanner amser yn y gêm Gwlad Belg (3), Cymru (1)? Rhowch amser digonol i'r disgyblion i feddwl ac ymchwilio.
  - *Ateb: 0-0, 0-1, 1-0, 2-0, 3-0, 1-1, 2-1, 3-1*

  Petai 4 gôl yn cael eu sgorio mewn gêm yn erbyn Iran, beth fyddai'r sgoriau posib? Sawl sgôr posib fyddai hynny i gyd?
  - *Ateb: Cymru 0 - Iran 4 ; Cymru 1 - Iran 3 ;*
    *Cymru 2 - Iran 2 ;*
    *Cymru 3 - Iran 1 Cymru 4 - Iran 0*
    *5 sgôr posibl i gyd*

  Petai 5 gôl yn cael eu sgorio mewn gêm yn erbyn UDA, beth fyddai'r sgoriau posib? Sawl sgôr posib fyddai hynny i gyd?
  - *Ateb: Cymru 0 - UDA 5 ;*
    *Cymru 1 - UDA 4 ; Cymru 2 - UDA 3 ;*
    *Cymru 3 - UDA 2 ; Cymru 4 - UDA 1*
    *Cymru 5 - UDA 0*
    *6 sgôr posibl i gyd*

Oes patrwm? Sawl sgôr fyddai'n bosib petai 10 gôl yn cael eu sgorio mewn gêm?



# Barddoniaeth acrostig

**Nod addysgol:** Datblygu sgiliau creadigol, ysgrifennu a llythrennedd

**Crynodeb:** Ysgifennu darn o farddoniaeth acrostig gan ddefnyddio enw gwlad fel sbardun

**Meysydd Dysgu:** Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu / Y Celfyddydau Mynegiannol

**Trefniadaeth:** Gwaith unigol neu gwaith pâr

**Offer:** Papur a phensil

Cyflwynwch y cysyniad o gerdd acrostig. Dangoswch enghreifftiau mewn llyfrau barddoniaeth.

Mae gweithgareddau cychwynnol am gerddi fan hyn: www.bbc.co.uk/bitesize/articles/zvgsvk7

Dewiswch enw gwlad a chyd-ysgrifennwch gerdd gyda'r plant. Trafodwch hyd brawddegau, odli, cyflythrennu, cymhariaeth ayyb.

**Enghraifft**
**C**icio'r bel i'r gôl
**Y**dy nod ein tîm
**M**eistri Cymru fach
**R**y'n ni wedi sgorio
**U**nwaith eto! Ennill y gêm!

Gofynnwch iddyn nhw greu cerddi acrostig yn unigol neu mewn parau.

Dewiswch enwau gwledydd ar hap neu gadewch i'r disgyblion ddewis gwlad sydd yng Nghwpan y Byd. Gweler tudalen 4.

**Syniadau am weithgareddau pellach**

- Cyflwyno'r gerdd ar ffurf poster a chreu arddangosfa o'r posteri.
- Creu rap gan ddefnyddio'r cerddi.
- Creu llyfr o farddoniaeth Cwpan y Byd.
- Cyflwyno rhai o'r darnau ar lafar i ddisgyblion iau'r ysgol.

# Enillwyr Cwpan y Byd

**Nod Addysgol:** Datblygu dealltwriaeth o drin data a defnyddio graff bar

**Crynodeb:** Defnyddio a deall tabl o enillwyr Cwpan y Byd i greu graff bar

**Meysydd Dysgu:** Mathemateg a Rhifedd

**Trefniadaeth:** Gwaith unigol

**Offer:** Offer ysgrifennu a phapur sgwariau, taflen 'Enillwyr Cwpan y Byd'

Gofynnwch i'r disgyblion gwblhau'r daflen waith.

Eglurwch i'r disgyblion bod angen cofio'r canlynol wrth wneud graff bar:

- gadael bwlch rhwng bob bar
- labelu yr echelinau
- defnyddio papur sgwariau

Mae cwestiwn 12 yn cynnig cyfle i drafod yr Ail Ryfel Byd a'r rheswm pam na chafodd cystadleuaeth Cwpan y Byd ei chynnal yn 1942 ac 1946.

Mae cwestiwn 13 yn cynnig cyfle i sôn bod Gorllewin yr Almaen a Dwyrain yr Almaen wedi uno yn 1990 ar ôl i Wal Berlin gael ei ddymchwel yn 1989.

**Syniad am weithgaredd pellach**

- Edrychwch ar restr enillwyr Cwpan y Byd Merched a chreu siart neu graff bar i ddangos y wybodaeth. Trafod beth sy'n debyg neu'n wahanol rhwng Cwpan y Byd Dynion a Chwpan y Byd Merched.

**Enillwyr Cwpan y Byd Merched**

| | |
|---|---|
| 1991 | UDA |
| 1995 | Norwy |
| 1999 | UDA |
| 2003 | Yr Almaen |
| 2007 | Yr Almaen |
| 2011 | Siapan |
| 2015 | UDA |
| 2019 | UDA |

# Taflen enillwyr Cwpan y Byd

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1930 | **Uruguay** | 1982 | **Yr Eidal** |
| 1934 | **Yr Eidal** | 1986 | **Ariannin** |
| 1938 | **Yr Eidal** | 1990 | **Gorllewin Yr Almaen** |
| 1950 | **Uruguay** | 1994 | **Brasil** |
| 1954 | **Gorllewin yr Almaen** | 1998 | **Ffrainc** |
| 1958 | **Brasil** | 2002 | **Brasil** |
| 1962 | **Brasil** | 2006 | **Yr Eidal** |
| 1966 | **Lloegr** | 2010 | **Sbaen** |
| 1970 | **Brasil** | 2014 | **Yr Almaen** |
| 1974 | **Gorllewin yr Almaen** | 2018 | **Ffrainc** |
| 1978 | **Ariannin** | 2022 | **?** |

1. Sawl gwaith mae'r Ariannin wedi ennill Cwpan y Byd?
2. Sawl gwaith mae Uruguay wedi ennill Cwpan y Byd?
3. Sawl gwaith mae'r Eidal wedi ennill Cwpan y Byd?
4. Sawl gwaith mae Brasil wedi ennill Cwpan y Byd?
5. Sawl gwaith mae Ffrainc wedi ennill Cwpan y Byd?
6. Sawl gwaith mae Sbaen wedi ennill Cwpan y Byd?
7. Sawl gwaith mae Ffrainc wedi ennill Cwpan y Byd?
8. Sawl gwaith mae Lloegr wedi ennill Cwpan y Byd?
9. Sawl gwaith mae'r Almaen wedi ennill Cwpan y Byd?
10. Pa wlad sydd wedi ennill Cwpan y Byd amlaf?
11. Pa mor aml mae Cwpan y Byd yn cael ei gynnal?
12. Pam na chafodd cystadleuaeth Cwpan y Byd ei chynnal yn 1942 ac 1946?
13. Pam fod Gorllewin yr Almaen wedi ennill deirgwaith a'r Almaen unwaith?
14. Llunia graff bar i ddangos y canlyniadau yn y tabl. Defnyddia bapur sgwariau a chofia roi teitl, labelu'r echelinau a rhoi bwlch rhwng pob bar.

# Arbrawf amser adweithio

**Nod addysgol:** Ymarfer cynnal ymholiad gwyddonol

**Crynodeb:** Cynnal ymholiad i amser adweithio'r disgyblion

**Meysydd Dysgu:** Gwyddoniaeth a Thechnoleg

**Trefniadaeth:** Gwaith pâr neu grwpiau bach

**Offer:** Papur gwyn, pensil, offer lliwio, siswrn, pren mesur 30cm a glud


Holwch y disgyblion pa sgiliau neu rinweddau sy'n bwysig wrth chwarae pêl-droed. Cofnodwch yr ymatebion fel map meddwl ar fwrdd gwyn.

Gwyliwch glipiau fideo o Wayne Hennessey yn dangos ei ddoniau i Gymru a thrafodwch pa sgiliau sydd eu hangen i fod yn gôl-geidwad da:
https://bbc.in/3Uirv7K
https://bbc.in/3zIBzyI

Trafodwch bwysigrwydd amser adweithio gyda'r disgyblion a holwch am syniadau am sut i fesur amser adweithio yn y dosbarth. Esboniwch i'r disgyblion eu bod yn mynd i fesur pa mor gyflym y maen nhw'n adweithio.

Rhowch yr offer i bob pâr o ddisgyblion. Gofynnwch iddyn nhw roi'r pren mesur ar y papur, gwneud amlinelliad ohono ac yna torri o amgylch yr amlinelliad a'i rannu'n chwe band tua 5cm o hyd yr un. Gofynnwch iddyn nhw liwio bob band mewn lliw gwahanol a gludio'r papur ar y pren mesur.

Gofynnwch i un disgybl ym mhob pâr ddal pen uchaf y pren mesur fel bod pen arall y pren mesur rhwng bawd a blaenfys (*forefinger*) y disgybl arall yn barod i'w ddal.



Gofynnwch i'r disgybl sy'n gafael ym mhen uchaf y pren mesur i'w ollwng heb rybudd. Eglurwch y bydd angen i'r disgybl arall ei ddal. Bydd y bandiau ar y pren mesur yn dangos pa mor gyflym y maen nhw'n adweithio. Gofynnwch i'r disgyblion newid drosodd fel bod pawb yn cael cyfle.

Ar ôl i bawb yn y dosbarth gael tro, ewch ati i goladu'r canlyniadau a'u defnyddio i lunio graff bar (bloc neu bictogram). Cymharwch y canlyniadau gyda chanlyniadau dosbarthiadau eraill a lluniwch gasgliad syml.

**Syniadau am weithgareddau pellach**

- Trafodwch pam fod gweithred atgyrch *(reflex action)* yn bwysig i gadw'r corff yn ddiogel.
- Gofynnwch i'r disgyblion i feddwl am enghreifftiau o weithred atgyrch, ee cyffwrdd arwyneb poeth ac am oblygiadau adweithio'n araf.

# Creu sŵn!

**Nod addysgol:** Datblygu sgiliau datrys problemau a chreadigrwydd

**Crynodeb:** Gweithgaredd i greu teclyn syml i wneud sŵn mewn gêm bêl-droed

**Meysydd Dysgu:** Gwyddoniaeth a Thechnoleg

**Trefniadaeth:** Gwaith grŵp

**Offer:** Amrywiaeth eang o eitemau cyffredin, ee balwnau, reis, ffa wedi sychu, bandiau elastig, riliau cotwm, llinynnau amrywiol, pibellau plastig, twmffat, tâp selo, cwpanau plastig, hen duniau bwyd, caeadau metel poteli, sisyrnau, glud ac ati

Holwch y disgyblion pa synhwyrau maen nhw'n eu defnyddio wrth ddilyn gêm bêl-droed.

- Pa fath o seiniau maen nhw'n eu clywed?
- Sut mae hyn yn effeithio ar yr awyrgylch?
- Cymharwch y synhwyrau hyn gyda gemau pêl-droed yn ystod y cyfnod clo pan doedd dim torf yn y stadiwm.

Trafodwch Gwpan y Byd De Affrica 2010 a'r effaith a gafodd y 'vuvuzela' ar yr awyrgylch yn y stadiymau. Esboniwch mai eu tasg nhw yw ymchwilio, cynllunio ac chreu teclynnau i'w defnyddio wrth gefnogi Cymru.

Holwch y disgyblion am y dulliau gwahanol o greu sain, ee chwythu, taro a thynnu. Gwnewch yn siŵr fod y disgyblion yn deall meini prawf llwyddiant y teclyn:

- ei fod yn gwneud sŵn
- ei fod yn gallu cael ei gario i mewn i gêm bêl-droed
- bod modd iddyn nhw greu'r teclyn eu hunain

Eglurwch fod angen dilyn proses os am fod yn llwyddiannus mewn unrhyw dasg STEM:

1 Gwneud gwaith ymchwil a thrafod syniadau.
2. Dewis un syniad, ac yna creu cynllun drwy nodi'r adnoddau y bydd eu hangen a nodi'r tasgau bydd angen eu gwneud i greu'r syniad.
3. Casglu'r offer a dechrau creu eu teclyn gan fonitro cynnydd yn rheolaidd ac addasu'r cynllun gwreiddiol os oes angen.
4. Gwerthuso'r teclyn drwy ei brofi, a chywiro neu wella unrhyw agwedd os oes angen.

## Creu sŵn!

Gadewch iddyn nhw arbrofi trwy ddilyn y camau uchod a chreu teclyn, ee

- Creu drymiau o wahanol feintiau gan ddefnyddio balŵn fel croen i'r drwm.
- Creu rhuglen (*rattle*) gan ddefnyddio caeadau metel poteli.
- Creu math o drwmped gyda phibell blastig a thwmffat.

Mae fideos a syniadau pellach am offerynnau ar gael gan BBC NOW: https://bbc.in/3zJn3Hf

**Syniadau am weithgareddau pellach**

- Gofynnwch i'r disgyblion i asesu gwaith eu cyfoedion ar lafar drwy nodi dau beth maen nhw'n eu hoffi ac un peth bydden nhw'n ei newid.



# Cardiau Cwpan y Byd

**Nod addysgol:** Dysgu am wledydd y byd ac adolygu sgiliau rhifedd a chreadigrwydd

**Crynodeb:** Creu gêm gardiau yn seiliedig ar y gwledydd sydd yng Nghwpan y Byd

**Meysydd Dysgu:** Y Dyniaethau / Y Celfyddydau Mynegiannol / Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu / Mathemateg a Rhifedd

**Trefniadaeth:** Gwaith pâr neu grwpiau bach

**Offer:** Mynediad i'r we i ymchwilio, papur, pensiliau lliw, cardiau plaen, pren mesur, cerdyn 'Cwpan y Byd Cymru'.

Dangoswch becynnau gwahanol o gardiau gwybodaeth i'r disgyblion. Trafodwch yr elfennau ymhob pecyn, ee dyluniad deniadol, ffeithiau diddorol, gwybodaeth wedi ei nodi yn glir.

Fel dosbarth, ewch ati i greu cerdyn gwybodaeth am un o wledydd Cwpan y Byd a'u harddangos ar fwrdd gwyn rhyngweithiol. Gall hwn gynnwys ffeithiau megis:

- poblogaeth y wlad
- uchder y mynydd uchaf
- hyd yr afon hiraf
- arwynebedd y wlad
- disgwyliad oes

Dangoswch 'Cerdyn Cwpan y Byd Cymru' fel enghraifft ac eglurwch eich bod chi eisiau i'r dosbarth greu pecyn o gardiau gwybodaeth am y gwledydd yng Nghwpan y Byd. Gallan nhw weithio mewn parau neu grwpiau bach.

Bydd angen:

- cytuno ar ba ffeithiau i'w cynnwys ar y cardiau
- dylunio logo ar gyfer cefn y cardiau (gallwch wneud hyn fel dosbarth)
- ymchwilio i faneri'r gwledydd er mwyn eu cynnwys ar y cardiau. Gweler tudalennau 5-12.

Gofynnwch i'r disgyblion i ddyfeisio gêm i'w chwarae gyda'r pecyn o gardiau mae'r dosbarth wedi ei greu.

**Syniadau am weithgareddau pellach**

- Chwarae'r gemau yn ystod amser chwarae gwlyb.
- Gofynnwch i'r disgyblion ddysgu disgyblion iau sut i chwarae'r gêm.
- Cynnal cystadleuaeth dylunio logo a gofyn i ddylunydd lleol feirniadu.
- Cynnal twrnamaint cardiau Cwpan y Byd.

# Cardiau Cwpan y Byd

## Cymru



Poblogaeth:
**3.19 miliwn**
Afon hiraf:
**Hafren 200 milltir**
Mynydd uchaf:
**Yr Wyddfa 1,085m**
Arwynebedd:
**8,023 milltir²**

# Cardiau Cwpan y Byd

# Gweithgareddau Ardderchog

Addas ar gyfer disgyblion Blwyddyn 5 a 6

# Cyflwyno gwybodaeth am wlad

**Nod addysgol:** Ymarfer sgiliau ymchwilio, cofnodi a chyflwyno

**Crynodeb:** Casglu gwybodaeth a chyflwyno gwybodaeth am wlad

**Meysydd Dysgu:** Y Dyniaethau / Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu / Y Celfyddydau Mynegiannol

**Trefniadaeth:** Gwaith unigol neu gwaith pâr

**Offer:** Mynediad i'r we i ymchwilio, llyfrau gwybodaeth, papur ac offer ysgrifennu

Eglurwch bod y disgyblion yn mynd i greu cyflwyniad am un o'r gwledydd sy'n cymryd rhan yng Nghwpan y Byd.

Trafodwch yr hyn sydd angen ei wneud wrth lunio cyflwyniad:
- cynllunio
- paratoi
- cysondeb
- ymarfer
- perfformio

Gofynnwch i'r disgyblion chwilio am wybodaeth am y wlad. Dyma awgrymiadau o'r pynciau posib.

| | |
|---|---|
| Poblogaeth | Pobl enwog o'r wlad |
| Iaith | Anifeiliaid |
| Bwyd | Cyfandir |
| Gwisg | Tirwedd |
| Cerddoriaeth | Crefydd |

Mae sawl dull i gofnodi'r wybodaeth:
- map meddwl
- pry copyn syniadau
- sialc ar iard yr ysgol
- sgwariau papur gludiog

Gofynnwch i'r disgyblion ddefnyddio meddalwedd addas i greu'r cyflwyniad. Atgoffwch nhw i gynnwys lluniau, diagramau neu graffiau er mwyn creu argraff ar y gynulleidfa.

Gofynnwch i'r disgyblion ddangos y cyflwyniad yn unigol neu mewn parau o flaen y dosbarth.

**Syniadau am weithgareddau pellach**
- Gofynnwch i'r disgyblion gyflwyno o flaen dosbarth arall neu mewn gwasanaeth.
- Cynnal sesiwn 'Cwestiwn ac ateb'.
- Cynnal cwis - disgyblion i ofyn cwestiynau yn seiliedig ar eu cyflwyniad.

# Arbrawf amser adweithio

**Nod addysgol:** Ymarfer cynnal ymholiad gwyddonol

**Crynodeb:** Cynnal ymholiad i amser adweithio'r disgyblion

**Meysydd Dysgu:** Gwyddoniaeth a Thechnoleg

**Trefniadaeth:** Mewn grwpiau bach neu mewn parau


**Offer:** Papur gwyn, pensil, offer lliwio, siswrn, pren mesur 30cm a glud

Holwch y disgyblion pa sgiliau neu rinweddau sy'n bwysig wrth chwarae pêl-droed. Cofnodwch yr ymatebion fel map meddwl ar fwrdd gwyn.

Gwyliwch glipiau fideo o Wayne Hennessey yn dangos ei ddoniau i Gymru a thrafodwch pa sgiliau sydd eu hangen i fod yn gôl-geidwad da:
https://bbc.in/3Uirv7K
https://bbc.in/3zIBzyI

Trafodwch bwysigrwydd amser adweithio gyda'r disgyblion a holwch am syniadau am sut i fesur amser adweithio yn y dosbarth. Esboniwch i'r disgyblion eu bod yn mynd i fesur pa mor gyflym y maen nhw'n adweithio.

Rhowch yr offer i bob pâr o ddisgyblion. Gofynnwch iddyn nhw roi'r pren mesur ar y papur, gwneud amlinelliad ohono ac yna torri o amgylch yr amlinelliad a'i rannu'n chwe band tua 5cm o hyd yr un. Gofynnwch iddyn nhw liwio bob band mewn lliw gwahanol a gludio'r papur ar y pren mesur.



Gofynnwch i un disgybl ym mhob pâr ddal pen uchaf y pren mesur fel bod pen arall y pren mesur rhwng bawd a blaenfys *(forefinger)* y disgybl arall yn barod i'w ddal.

Gofynnwch i'r disgybl sy'n gafael ym mhen uchaf y pren mesur ei ollwng heb rybudd. Eglurwch y bydd angen i'r disgybl arall ei ddal. Bydd y bandiau ar y pren mesur yn dangos pa mor gyflym y maen nhw'n adweithio. Gofynnwch i'r disgyblion newid drosodd fel bod pawb yn cael cyfle.

Ar ôl i bawb yn y dosbarth gael tro, ewch ati i goladu'r canlyniadau a'u defnyddio i lunio graff bar (bloc neu bictogram). Cymharwch y canlyniadau gyda chanlyniadau dosbarthiadau eraill a lluniwch gasgliad syml.

**Syniadau am weithgareddau pellach**

- Gwnewch waith ymchwil i'r broses o weithred atgyrch *(reflex action)* a sut mae'n wahanol i adweithio arferol.
- Ar ôl trafod gofynion prawf teg, ailadroddwch y prawf ar amseroedd gwahanol o'r dydd gan gofnodi'n drefnus mewn tabl. Ar ôl casglu digon o ddata, bydd modd creu graff llinell o'r canlyniadau a llunio casgliad syml.
- Addaswch yr ymholiad i geisio ateb cwestiynau megis:
  - ai bechgyn neu ferched sy'n adweithio gyflymaf?
  - ydy plant 7/8 oed yn adweithio'n gyflmach na phlant 9/10 oed?

# Ysgrifennu araith i dîm Cymru

**Nod addysgol:** Datblygu sgiliau creadigol a pherfformio

**Crynodeb:** Ysgrifennu ac adrodd/traddodi araith ar gyfer Tîm Cymru cyn gêm Cwpan y Byd

**Meysydd Dysgu:** Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Trefniadaeth:** Grwpiau o 4/5 disgybl

**Offer:** Offer i ysgrifennu'r araith, taflen 'Ysgrifennu araith i dîm Cymru'

Gwyliwch neu wrandewch ar araith Michael Sheen gyda'r disgyblion (*"Michael Sheen's Incredible speech for the Welsh football Team," 'A League of their Own'*).

Eglurwch mai pwrpas yr araith yw i ysbrydoli tîm Cymru yng Nghwpan y Byd 2022.

Esboniwch fod eisiau i'r disgyblion gyfansoddi araith fer, tua 2 funud o hyd, i ysbrydoli Cymru cyn un o'r gemau.

Trafodwch nodweddion da araith Michael Sheen, mewn grwpiau neu fel dosbarth.

1. Yma o hyd, yma o hyd...
2. One nation singing with one voice, a song of hope, a song of courage, a victory song that floats through the valleys like a red mist, rolls over the mountains like crimson thunder.
3. It crackles with the spirit of '58.
4. It turns the pages of history books and finds Rob's Page waiting to be written.
5. When the English come knocking on our door, let's give 'em some sugar boys, let's give 'em some Welsh sugar!

Rhowch y daflen 'Ysgrifennu araith i dîm Cymru' i bob disgybl.

**Syniadau am weithgareddau pellach**

- Gofynnwch i'r disgyblion berfformio'r araith o flaen y dosbarth
- Gwnewch fideo o'r araith a'i rannu gyda'r dosbarth/ysgol. Llwythwch i i gyfrifon cymdeithasol yr ysgol. Cofiwch yr hashnod #pecyncwpanybydcymru

# Taflen ysgrifennu araith i dîm Cymru

Pethau i'w cofio wrth lunio'r araith:
- cydweithio fel grŵp - fel tîm pêl-droed da
- mae angen ysgogi'r chwaraewyr
- gwneud nodiadau cyn dechrau
- dewis un person i'w hadrodd
- cadw'r hyd i tua dwy funud

Ystyria os wyt am gyfeirio at:
- hanes Cymru
- perthyn i dîm, perthyn i Gymru
- brawdgarwch
- y crys coch
- Y Wal Goch

**Dyma restr o eiriau ac ymadroddion defnyddiol ar gyfer yr araith.**

| | |
|---|---|
| **coch** | **gyda'n gilydd** |
| **Y Ddraig Goch** | **hwyl** |
| **Yr Wyddfa** | **calon** |
| **Yma o Hyd** | **ysbryd** |
| **o Fôn i Fynwy** | **bendigedig** |
| **Stadiwm Dinas Caerdydd** | **gwych** |
| **gogledd a de** | **gorau glas** |
| **gorau chwarae cyd-chwarae** | **Y Wal Goch** |
| **perthyn** | **gwefreiddiol** |
| **gogoneddus** | **syfrdanol** |
| **trawiadol** | **heb os nac oni bai** |

# Cymru 1958

**Nod addysgol:** Datblygu sgiliau darllen a deall

**Crynodeb:** Dysgu am hanes Cymru yn mynd i Gwpan y Byd 1958

**Meysydd Dysgu:** Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Trefniadaeth:** Gwaith unigol

**Offer:** Taflen 'Cymru 1958'

Darllenwch daflen 'Cymru 1958' am hanes Cymru yng Nghwpan y Byd 1958 i'r disgyblion. Yna, gofynnwch iddyn nhw fynd ati i ateb y cwestiynau sy'n dilyn.

**Syniadau am weithgareddau pellach**

- Gwyliwch fideos o John Charles a fideos o Gareth Bale yn chwarae pêl-droed ar y we. Beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol yn y modd mae'r ddau yn chwarae?
- Ymchwiliwch i hanes chwaraewyr eraill yng ngharfan Cymru yn 1958.
- Gwyliwch fideos o gemau 1958 ac ystyriwch beth sy'n wahanol erbyn heddiw, ee y cit, safon y chwarae, y dorf ac ati.

# Taflen Cymru 1958

Llwyddodd Cymru i gyrraedd Cwpan y Byd 2022 yn Qatar. Does dim syndod bod pawb yn dathlu pan guron nhw Awstria ac Wcráin yn y gemau ail gyfle. Doedd Cymru ddim wedi bod yn rowndiau terfynol Cwpan y Byd ers 1958, chwech deg pedwar o flynyddoedd ynghynt.

Roedd Cymru wedi methu cyrraedd rowndiau terfynol Cwpan y Byd 1958 yn wreiddiol. Roedden nhw wedi gorffen yn ail yn eu grŵp ond yna daeth cyfle arall i fynd i Sweden. Roedd rhaid dewis tîm ar hap i chwarae yn erbyn Israel mewn dwy gêm ail gyfle. Byddai'r enillwyr yn mynd i Gwpan y Byd. Enw Cymru ddaeth allan o'r het, felly roedd ganddyn nhw obaith newydd y gallen nhw lwyddo.

Enillodd Cymru o ddwy gôl i ddim yn Israel. Enillon nhw'r gêm gartref o'r un sgôr hefyd o flaen torf o 38,000 ym Mharc Ninian, Caerdydd. Roedd Cymru wedi cyrraedd Cwpan y Byd am y tro cyntaf erioed!

Rheolwr Cymru ar y pryd oedd Jimmy Murphy o Pentre yn y Rhondda. Roedd e hefyd yn hyfforddwr gyda Manchester United. Ar 6 Chwefror, 1958 cafodd awyren Manchester United ddamwain erchyll yn Munich. Lladdwyd 23 o'r teithwyr gan gynnwys wyth o chwaraewyr y tîm. Fel arfer byddai Jimmy Murphy wedi bod yn eistedd wrth ochr Matt Busby, rheolwr Manchester United, ar yr awyren. Ond gan fod Cymru yn chwarae yn erbyn Israel ar 5 Chwefror, doedd e heb deithio ar yr awyren. Efallai bod hynny wedi achub ei fywyd.

Ar ôl i Gymru gael tair gêm gyfartal yn eu grŵp roedd yn rhaid iddyn nhw a Hwngari chwarae gêm arall i benderfynu pwy fyddai'n mynd i'r rownd nesaf. Enillodd Cymru y gêm o ddwy gôl i un. Un o chwaraewyr gorau Cymru oedd John Charles. Roedd yn gawr o ddyn ac yn 1.88 metr o daldra. Roedd yn un o chwaraewyr gorau'r byd ar y pryd ac roedd yn chwarae i Juventus. Ei lysenw yn yr Eidal oedd "Y Cawr Addfwyn". Doedd e ddim yn gallu chwarae yn y rownd nesaf am ei fod wedi ei anafu ar ôl cael ei gicio drwy gydol y gêm yn erbyn Hwngari

Gwrthwynebwyr Cymru yn y rownd gogynderfynol oedd Brasil, un o dimau gorau'r byd. Torrwyd calonnau tîm Cymru pan gollon nhw o un gôl i ddim. Roedden nhw allan o'r gystadleuaeth. Bachgen ifanc 17 oed o'r enw Pelé sgoriodd unig gôl y gêm. Erbyn hyn mae'n cael ei ystyried fel un o'r chwaraewyr pêl-droed gorau erioed. Aeth Brasil ymlaen i ennill y gystadleuaeth.

Er bod Cymru wedi bod mor llwyddiannus yng Nghwpan y Byd, ni chafodd y tîm lawer o sylw wrth ddychwelyd adref. Roedd Gemau'r Gymanwlad ar fin cychwyn yng Nghaerdydd, ac roedd hynny'n hawlio'r sylw yn y newyddion. Serch hynny, mae nifer o bobl yn cofio am berfformiad arbennig Cymru yng Nghwpan y Byd y flwyddyn honno ac mae ysbryd '58 yn dal yn fyw yng nghalonnau llawer un.

# Taflen Cymru 1958

**Cwestiynau**

**Ateba'r cwestiynau isod. Mae'r atebion yn stori 'Cymru 1958'.**

1. Beth oedd enw rheolwr Cymru yn 1958?
2. Pwy oedd un o chwaraewyr gorau Cymru yn 1958?
3. Pa dîm pêl-droed gafodd ddamwain awyren erchyll yn 1958?
4. Ble digwyddodd y ddamwain?
5. Pwy o dîm Brasil sgoriodd yn erbyn Cymru?
6. Ysgrifenna dair ffaith am John Charles.
7. Roedd Jimmy Murphy yn lwcus iawn nad oedd wedi teithio ar yr awyren gafodd y ddamwain erchyll. Ysgrifenna am rywbeth lwcus sydd wedi digwydd i ti.

